

# BBC PLANT MEWN ANGEN SYNIADAU CODI ARIAN

Mae codi arian nid yn unig yn hwyl ond mae hefyd yn rhoi cyfle i blant ddatblygu sgiliau eraill fel gwaith tîm, empathi, trefnu, marchnata a sgiliau corfforol (fel pobi neu ymarfer corff) yn ogystal â datblygu gwybodaeth o'r byd a bywydau ac anawsterau eraill.

## Cyflwyno'r Elusen

Yn gyntaf, mae angen i blant ddeall a bod yn ymwybodol o beth maent yn codi'r arian iddo. Mae digon o adnoddau ar wefan BBC Plant Mewn Angen er mwyn helpu'r plant i ddysgu mwy am yr elusen a'i gwaith da.



## Trafod Syniadau Gyda'n Gilydd

Bydd gan y plant fwy o ddiddordeb os mai nhw sy'n cymryd perchnogaeth dros gyfeiriad y gweithgareddau codi arian. Fel arfer mae gan blant syniadau gwych nad ydynt efallai wedi cael eu hystyried eisoes.

Gall y plant weithio mewn grwpiau bach er mwyn ystyried syniadau ac yna eu rhannu gyda'r dosbarth cyn pleidleisio ar y rhai gorau i'w datblygu. Efallai y byddwch yn penderfynu bwrw ymlaen gyda nifer o syniadau.

Efallai y byddech eisiau roi rhyddid i'r plant ddatblygu eu syniadau neu efallai y byddai'n well i chi roi meysydd gwahanol i bob grŵp drafod.


Gall y digwyddiad fod yn gystadleuaeth, perfformiad, gweithgaredd noddedig neu ffair ac yn y blaen. Gall y testunau gynnwys digwyddiadau fel ffair dewch a phrynwch, digwyddiadau chwaraeon, coginio, cerddoriaeth, celf a chreffft ac yn y blaen. Gellir trefnu'r digwyddiadau hyn fel rhai i rieni a'u plant, rhai unigol, rhai tîm neu hyd yn oed digwyddiad i'r ysgol gyfan.



## Cynllunio a Threfnu

Fel athro, gallwch ddefnyddio'r siart llif i'ch dibenion chi eich hun. Gan ddibynnu ar oedran a galluoedd y plant yn eich dosbarth, gallwch benderfynu ar faint o'r gwaith trefnu i roi i'r disgyblion.

Dilynwch y siart llif syml isod am gymorth er mwyn trefnu digwyddiad llwyddiannus.




## Syniadau Codi Arian

Gobeithio ni fydd angen rhagor o gymorth ar ôl yr holl drafod syniadau a chynllunio, ond gweler isod rhai syniadau ar gyfer codi arian rhag ofn bod angen ysbrydoliaeth arnoch.

- Mae digwyddiadau noddedig yn rhwydd i'w trefnu a gall gynnwys pethau fel tawelwch noddedig, taith noddedig, ras noddedig, naid noddedig, canu noddedig ac yn y blaen.
- Beth am greu digwyddiad gwahanol a all unigolion neu dimau ei wneud e.e. marathôn, digwyddiadau sillafu, dawnsio, nofio, canu ac yn y blaen.
- Edrychwch ar y sgiliau mae pobl wahanol yn yr ysgol yn gallu eu cynnig er mwyn gwneud perfformiad neu arddangosfa. Oes athro sy'n gallu chwarae offeryn mewn band? Os disgybl sy'n ddawnsiwr neu bêl-droediwr anhygoel?
- Gall gystadlaethau lle mae pobl yn talu i gymryd rhan fod yn boblogaidd iawn ac yn hwyl i fod yn rhan ohonynt. Gall y rhain fod yn ddigwyddiadau celf, chwaraeon, pobi neu gystadlaethau talent. Gall pobl eraill hyd yn oed dalu i bleidleisio.
- Mae casglu arian (er enghraifft casglu ceiniogau gyda bwcedi casglu mawr ym mhob dosbarth) yn ffordd draddodiadol a llwyddiannus o gasglu arian.
- Cynhaliwch ddiwrnod 'spotacular' gwisgo i fyny lle mae pobl yn talu i gymryd rhan.
- Mae ffeiriau dewch a phrynwch ( sy'n gwerthu eitemau fel cacennau, llyfrau neu deganau ail-law, eitemau sydd wedi'u gwneud â llaw ac yn y blaen) yn syniadau gwych ar gyfer codi arian ac yn ail-gylchu eitemau ar yr un pryd!

## Cofiwch

Y peth pwysig yw codi arian i BBC Plant Mewn Angen felly meddyliwch drwy'r amser am sut allwch annog cyfraniadau.



### Adnoddau

[Ffurflen Noddedig BBC Plant Mewn Angen](#)

[Sticeri BBC Plant Mewn Angen](#)

[Pobwch!](#)

[Gwnewch!](#)

[Addurnwch!](#)

[Ewch yn Smotiog!](#)